WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

John Cook
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon
Ffordd Cambria
Aberhonddu
Powys
LD3 7HP

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 107A2014 |
| **Dyddiad** | 27 Ionawr 2014 |
| **Tudalennau** | **1** o **2** |

Annwyl John

# Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 23 Medi 2013, rhoddais fy marn ar a oedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae'n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ar a yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod) wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

**Yn fy marn i, ac ar sail gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur, er bod lle iddo gryfhau ei drefniadau ymhellach.**

Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur:

- cyhoeddodd yr Awdurdod asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gwella ar gyfer 2012-13 Rhan 2* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013;
- mae'r Adroddiad yn asesu perfformiad yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn amlinellu sut y mae'r Awdurdod wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys gwerthusiadau cryno ar gynnydd yn erbyn amcanion gwella'r Awdurdod ac yn nodi gwybodaeth am berfformiad mewn nifer o feysydd, ynghyd â chymariaethau, lle bônt ar gael, â'i berfformiad ei hun ers 2010-11 a'r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ar y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi ceisio cydweithredu.

Fodd bynnag, nid oedd yr Adroddiad yn cynnwys gwahoddiad penodol i ddinasyddion roi adborth na gwneud sylwadau ar ei gynnwys. Mae'r Adroddiad yn cynnwys gwahoddiad i ddarllenwyr ymweld â'i wefan i ddarganfod mwy ynglŷn â'r modd y caiff yr Awdurdod ei strwythuro a'i weinyddu. Mae hyn, ynghyd â'i weddarllediadau cyhoeddus o'i brif gyfarfodydd pwyllgor a'i ymagwedd gynhwysol tuag at gyflawni ei adolygiadau craffu, yn awgrymu bod yr Awdurdod yn awyddus i ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Ni cheir cynigion ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan yr Awdurdod mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu prosesau rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad yr Awdurdod dros y misoedd nesaf ac yn adrodd arno, yn ogystal â chrynhoi fy ngwaith fy hun i gyd a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Awdurdod y byddaf yn ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi: Lesley Griffiths – Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

John Griffiths, Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

John Roberts, Arweinydd Archwilio Perfformiad